

## Maniffesto Diwylliannol ar gyfer Adferiad

Adferiad fydd tasg ganolog Senedd a Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad, a hynny yn sgil pwysau digymar mewn cyfnod o heddwch. Mae gan y sector greadigol rôl hanfodol i'w chwarae yn yr adferiad hwnnw, fel y rôl y chwaraeodd ar ôl yr ail ryfel byd, a welodd ddifrod hyd yn oed yn fwy.

Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr ym 1946 yn union ar ôl y rhyfel hwnnw, ac mewn cyfnod o gyni mawr. Flwyddyn yn ddiweddarach daeth Gŵyl Caeredin ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen i fodolaeth.

Mae pandemig Covid wedi cael effaith ddifrifol na ellir ei mesur o ran marwolaeth a phrofedigaeth yn unig, ond hefyd o ran y trawma corfforol a meddyliol sydd wedi niweidio unigolion, cymunedau a sectorau cyflawn o gymdeithas. Effeithiwyd yn ddirfawr ar bobl ddu, pobl o liw nad ydynt yn ddu, a phobl anabl yn sgil anghydraddoldebau a fodolai eisoes o ran iechyd, cyflogaeth, addysg a thai.

Cafodd yr effeithiau hynny ddylanwad difrifol iawn ar addysg a bywyd cymdeithasol plant a phobl ifanc, mewn ffordd a gaiff effaith hir dymor ar eu datblygiad yn y dyfodol a'u cyfleoedd mewn bywyd, gan gynnwys, yn benodol, tanseilio'r cynnydd at y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Os yw'r sector ddiwylliannol am wneud ei chyfraniad hanfodol tuag at adferiad unigolion a chymunedau, rhaid i ni yn gyntaf fynd i'r afael ag adferiad ac ecoleg difrodedig y sector honno ei hun – sef y difrod i artistiaid a sefydliadau.

Cyfraniad hanfodol i'r adferiad hwnnw fydd y parhad o ran cyflenwi dibenion artistig craidd y sector

- drwy ddod â phobl at ei gilydd unwaith yn rhagor i rannu profiadau, mewn perfformiadau a digwyddiadau byw
- drwy greu gwaith a fydd yn rhoi cysur, yn boddhau, yn cyffroi ac yn herio
- drwy gyflwyno safbwyntiau ffres a pherthnasol i gymdeithas sy'n chwilio'n byrderus am gyfeiriadau newydd

### Addunedau Dwyochrog

Galwn ar **Lywodraeth Cymru** i gydnabod y rôl ganolog y dylai'r sector greadigol, yn ei holl agweddau, fod yn ei chwarae ym mhroses yr adferiad. I'r perwyl hwnnw, gofynnwn i **Lywodraeth Cymru** wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau iechyd a chynnaladwyedd y sector, gan sicrhau ar yr un pryd ymglymiad agos y sector at ymagwedd integredig o ran cynllunio a strategaeth ar draws pob portffolio.

Yn ei thro, cyfraniad y **sector greadigol** at hyn yw ei haddewid i gydweithio, oddi fewn i'r sector ac â chyrrff eraill, ar fentrau wedi'u targedu i sicrhau ymyraethau effeithiol a hir dymor a fydd yn cynorthwyo i fynd i'r afael ag ystyriaethau cynrychiolaeth gyfartal, cydweithio ac iachau yn ogystal â gwireddu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg.

## Adduned newydd Llywodraeth Cymru

Dymunwn weld Lywodraeth newydd Cymru o ba bynnag blaid neu glymblaid yn cyflawni'r adduned canlynol:

### O gael ein hethol byddem yn—

- Sicrhau iechyd a chynladwyedd y sector greadigol** gan y bydd yn chwarae rôl allweddol yn adferiad ac iachâd ein cenedl ar ôl y pandemig. Bydd y sector yn gwneud hyn
  - drwy gyflawni ei dibenion artistig craidd a chynnig adloniant a chyfleoedd i ymgynnull yn gymdeithasol a rhannu profiadau
  - drwy flaenoriaethu iechyd a llesiant ein pobl a chenedlaethau'r dyfodol, drwy frwydro yn erbyn problemau unigedd ac iechyd meddwl, cyfoethogi bywydau plant oddi fewn i leoliadau addysgol a thu hwnt, gwella sgiliau, egnïo cymunedau a gwella proffil Cymru y tu hwnt i'w ffiniau
  - drwy helpu pobl mewn cymdeithas amrywiol, sy'n aml yn rhanedig, i ddeall ei gilydd
  - drwy ymateb yn egnïol a chreadigol i bob agenda pwysig yn ein cymdeithas
- Cryfhau'r dimensiwn diwylliannol ar draws Llywodraeth Cymru** gan y bydd hyn yn cyflawni uchelgais gymdeithasol ac economaidd y llywodraeth ei hun yn fwy effeithiol ac effeithlon
  - drwy roi cyfrifoldeb am ddiwylliant a chreadigrwydd i **Aelod Llawn o'r Cabinet**
  - drwy greu **uned polisi ganolog** gref yn Llywodraeth Cymru a fyddai o fudd nid yn unig i iechyd, addysg, y celfyddydau a diwylliant, diwydiannau creadigol a'r Gymraeg ond hefyd i'w holl adrannau drwy gyfrwng ymagwedd drawstoriadol at ddatblygu polisi a gwerthuso
  - drwy sicrhau fod **Cymru Greadigol** yn ei chyfansoddiad, trefn a chylch gwaith yn adlewyrchu'r realiti fod y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yn rhan o'r un ecoleg
  - drwy sicrhau fod holl adrannau'r llywodraeth yn **cefnogi, yn ariannu ac yn galw am** elfen ddiwylliannol gref yn eu gwaith
- Gofyn bod yr holl awdurdodau lleol yn ymddwyn fel cynllunwyr y celfyddydau a diwylliant oddi fewn i'w ffiniau** drwy
  - **sefydlu consortiwm diwylliannol lleol** ym mhob awdurdod, gan roi ffurf gyffredin i Rwydweithiau diwylliannol lleol

## FERSIWN DERFYNOL

- galluogi **mynediad at y celfyddydau** a mynd i'r afael ag ystyriaethau ym mhob ardal sy'n berthnasol i amrywiaeth a chynrychiolaeth, y Gymraeg, iechyd a llesiant.

### 4. Sicrhau ymglymiad agos y sector greadigol wrth baratoi a gweithredu'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys

- monitro effaith Covid ar **ddatblygiad sgiliau ieithyddol plant a phobl ifanc, yn y Gymraeg a'r Saesneg**, gan greu nawdd i fynd i'r afael â'r gwahanol gamau adferol sydd eu hangen, o bosibl, mewn perthynas â'r naill iaith a'r llall a gosod gweithgareddau diwylliannol a chreadigol wrth graidd yr adferiad.
- **cynnwys cerddoriaeth yn rhan ganolog o'r rhaglen adferiad**, gan sicrhau fod cyfranogiad cerddorol o bob math yn cael ei wreiddio'n barhaol yn y ddarpariaeth sydd ar gael i'n hieuenctid oll.

### 5. Adfywio clymau cymunedol, twristiaeth a chysylltiadau rhyngwladol

- drwy gefnogi adferiad **gwyliau a digwyddiadau byw** o bob maint ac ym mhob lleoliad
- drwy ymgyrchu i adfer **rhyddid i symud yn rhydd a heb fisa oddi fewn i'r UE** drwy gyfrwng protocol cytundeb DU-UE.

3 Chwefror 2021